OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3046 (Cy. 305)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Rhagfyr 2013* |
| *LGosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Rhagfyr 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno(**1**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 1992 wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014.

(2) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p.41) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno gan adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p.17) a Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno.

(**2**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289), 2003/3211 (Cy.304), 2004/3232 (Cy.280), 2005/3345 (Cy.259), 2006/3347 (Cy.307), 2007/3343 (Cy.295), 2008/2929 (Cy.258), 2009/3147 (Cy.274), 2010/2889 (Cy.239), 2011/2610 (Cy.283) a 2012/3036 (Cy.310).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

4 Rhagfyr 2013

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

"SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 55,660 |
| Bridgend | 110,834 |
| Caerphilly | 139,761 |
| Carmarthenshire | 146,779 |
| Cardiff | 276,824 |
| Ceredigion | 63,408 |
| Conwy | 93,634 |
| Denbighshire | 74,777 |
| Flintshire | 120,348 |
| Gwynedd | 98,397 |
| Isle of Anglesey | 56,447 |
| Merthyr Tydfil | 46,439 |
| Monmouthshire | 73,144 |
| Neath Port Talbot | 112,032 |
| Newport | 112,919 |
| Pembrokeshire | 98,021 |
| Powys | 107,174 |
| Rhondda Cynon Taf | 185,566 |
| Swansea | 192,893 |
| Torfaen | 71,767 |
| Vale of Glamorgan (The) | 99,722 |
| Wrexham | 106,615" |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 (O.S. 1992/3238) ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p.41), mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).